
# Llygad Barcud

## Cylchgrawn Cymdeithas Ted Breeze Jones



Rhifyn 32 - Gaeaf 2014/15

## GOLYGYDDOL

**Llygad Barcud ar ei newydd wedd**

Gobeithio y byddwch yn mwynhau Llygad Barcud ar ei newydd wedd.

Rwyn siwr y byddwch yn sylweddoli bod paratoi rhifyn lliwgar fel hwn yn costio tipyn mwy na'r trefniadau blaenorol ac yn sylweddoli bod pris postio wedi codi yn sylweddol. Dyna pam y symudwyd i drefn o DDAU rifyn bob blwyddyn yn lle tri.

***OS YDYCH YN AELOD LLAWN*** ac yn talu'r ffi aelodaeth, byddwch ***YN PARHAU*** i dderbyn **copi papur drwy'r post** fel yn y gorffennol.

Bydd cefnogwyr a chyfeillion eraill yn derbyn ***COPI ELECTRONIG*** o'r cylchgrawn drwy e-bost (gwnewch yn siwr eich bod yn rhoi gwybod i ni beth yw eich cyfeiriad e-bost os am dderbyn copi electronig).

## Cynnwys:


Adar Awstralia *Twm Elias*...................................................... 3
Adar y Nadolig (1) Y Twrci *Dafydd Guto* ............................... 11
Y Dewraf, Eiddilaf o'n Hadar Môr *Ieuan Bryn* ....................... 13
Safwn yn y Bwlch *Gareth Jones* ........................................... 17
Taith Llandanwg a Mochras ................................................ 19
Cudyll Coch Pen Llŷn *Gareth Jones* ..................................... 22
Rhaglen Ionawr-Mehefin 2015 ............................................ 24



**Swyddogion**

**Llywyddion Anrhydeddus**: Iolo Williams + Annwen Breeze Jones
**Cadeirydd**: Twm Elias (twm.elias@outlook.com)
**Trysorydd + Ysgrifennydd Aelodaeth**: Brian Paul
Tŷ Fry, Penrhyndeudraeth, LL48 6RT, 01766 770 500
**Cyd-ysgrifenyddion**: Huw Dafydd + Gareth T Jones (pwllheli@gmail.com)

**Cyfeiriad cyswllt cyffredinol:** gwefeistr@cymdeithastedbreezejones.org.uk


Mae y siopau canlynol yn cynnig gostyngiadau i aelodau'r Gymdeithas-

**Nigel Hughes, Porthmadog**
**Browsers, Porthmadog**
**Crib Goch, Llanberis**
**Bear Print, Porthmadog**
**Cotswold Outdoor, Betws y Coed**

Cyfrannwch i'n gwefan a chwiliwch drwy ôl-rifynnau Llygad Barcud

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**

# ADAR AWSTRALIA



*Yr olygfa dros Lyn Tinaroo – tebyg i adre, efo gwartheg duon yn porri (y dotiau ar y dde)*

**Awstralia, medda nhw, ydi'r unig le sy'n wlad, yn ynys ac yn gyfandir yr un pryd. Mi alla' inna' dystio i sicrwydd ei bod yn gythra'l o wlad fawr fel y gwelais i pan e's i yno am ddeufis yr haf 'ma (2014). Fy anrheg ymddeoliad i mi fy hun oedd y trip ac, wrth lwc, mi oedd gen i le i aros efo teulu yng Nghwînsland a chyfaill yng Nghanberra. Doeddwn i ddim wedi gwneud unrhyw gynllun o flaen llaw o be o'n i am wneud yno. Mi oedd yn well gen i jyst dilyn fy nhrwyn a chymryd cyngor rhai sy'n gyfarwydd â'r lle ar ôl cyrraedd. Felly bu hi, a heblaw am dridiau ar drip twristaidd i'r 'canol coch' i weld Uluru (y graig fawr goch honno yn yr anialwch) a diwrnod ar y Barrier Reef, felly bu hi.**

A be am yr adar? 'Ro'n i'n edrych ymlaen i weld petha gwahanol i'r arfer, ac mi ***oedden*** nhw yn dra gwahanol hefyd. Wel, heblaw am un neu ddau o bethau eitha cyfarwydd – fel adar y to yn rhai o'r trefi, adar duon (gwialchod) ym mharciau trefol Sydney a heidiau bach o ddrudwy ar y porfeydd defaid yn New South Wales.

Yn ôl y *Field Guide to the Birds of Australia*, Simpson & Day (1996), oedd yn Feibl imi tra mod i yno, mae 'na 754 o wahanol rywogaethau yn y wlad i gyd, wedi eu rhannu rhwng sawl math o gynefin: coedwigoedd trofannol yr arfordir gogleddol; Tasmania ac arfordir y de-ddwyrain; y coedwigoedd ewcalyptus helaeth rownd yr ymylon; y paith sych rownd y canol ac, wrth gwrs, y 'canol coch' tywodlyd.

Mi welais i 170 o wahanol fathau o adar i gyd, a hynny heb fawr o drafferth. Fuais i ddim ar ryw dripiau twitshlyd, jyst crwydro dipyn bob

bora efo binocs a chamera. Roedd y camera bach (*Lumix DMC-TZ60*, x30) yn werth y byd am fod y rhan fwya’ o’r adar yn eithriadol o ddof ac yn weddol hawdd cael lluniau ohonyn nhw. Doeddwn i ddim yn trafferthu cario’r llyfr adar efo fi, rhag gwastraffu amser yn troi tudalennau heb wybod am be i chwilio, ond yn cymryd amser i gymharu’r lluniau camera efo’r lluniau llyfr ar ôl cyrraedd adra.

**Dyddiadur a sylwadau**

***Awst 2il, 2014*** – Hedfan o Fanceinion i Dubai, 6 awr. Deryn mynah (ymfudwr o’r India) wedi ymgartrefu yn y coed palmwydd tumewn i adeilad mawr crand y maes awyr. Mi welais i fwy o’r rhain wedi cyrraedd pen y daith – yn lled gyffredin yn y trefi dwyreiniol. Y mynah yn amhoblogaidd yn Awstralia am ei fod yn dwyn o nythod adar bach brodorol. E’lla ei fod o, ond mae ’na lawer iawn o adar brodorol sy’n waeth na fo sy’n golygu na fedr hydnoed y mynah ledu o ddiogelwch y trefi. Nodwedd amlwg o adar Awstralia ydy bod cymaint mor eithriadol o swnllyd, cystadleuol ac ymosodol. Mwy am hynny yn y man.

***Awst 3ydd*** – tua 11 awr o Dubai i Sydney a dwyawr oddiyno i Cairns yn y gogledd. Croeso mawr gan Gwyneth fy nghyfnither a Grant ei gŵr. Fy mhrofiad cynta o goedwig drofannol go iawn (drwy ffenest y car) wrth ddringo o Cairns ar yr arfordir i’r llwyfandir uchel (Llwyfandir Atherton) y tu draw i’r Gillies Range. Cyfarfod Aeron ac Anwen (cefnder a chyfnither arall imi) yn nhref Mareeba cyn mynd ymlaen i Edgewater ger Llyn Tinaroo. Ar lan y llyn mawr hwn yr oeddwn yn mynd i aros efo Gwyneth a Grant am y rhan fwya o’r amser. Popeth yn ddiarth iawn hyd yn hyn, er bod yr olygfa dros Tinaroo draw am fynyddoedd y Great Dividing Range yn rhyfeddol o debyg i adra.

***Awst 4ydd*** – Wnes i ddim deffro tan ganol y bora. Cyfle yn y p’nawn i gyfarwyddo efo’r adar cyffredin o gwmpas y tŷ ac ar lannau’r llyn. Un oedd y cornicyll mygydog *(Vanellus miles)* oedd yn rhodio’r gwellt-tir ar lannau’r llyn. Grant yn dweud fy mod yn lwcus nad oedd yn dymor nythu am fod hwn yn ymosod ar unrhyw un ddaw’n agos. Mae ganddo sbardun heger ar ei arddwrn ac fe ddaw’n gyflym o’r tu cefn gan roi celpan ichi ar eich pen a thynnu gwaed.



*Ein cymydog, y cornicyll mygydog*

Deryn arall oedd yn rhodio’r borfa oedd y ‘pi-wi’ *(Grallina cyanoleuca)*, deryn du a gwyn maint cornchwiglen. Yr hen alwad uchel



*Y 'pi-wi' piwis*

'pi-wi' yn mynd drwy'ch pen chi braidd.

Un arall gafodd ei enwi'n lleol am ei alwad yw'r 'cyr-liw' (tewlin y gwylltir, *Burhinus grallarius*). Yn aml byddai criw o'r rhain yn eistedd yn un rhes o dan ffens goed yn y cae gerllaw. Droeon eraill mi ddeuant i sefyll ar eu coesau hirion fel sentris yn y borderi o gwmpas yr ardd – gan aros yn hollol ddi-symud am amser hir.



*Fel 'sentris' ar y border*

Aderyn cyffredin ymhobman oedd y g'lomen gopog *(Ocyphaps lophotes)* ddeuai ar yr erial deledu ar do'r tŷ ac i'r coed yn y gerddi gerllaw. Tebyg i'n turtur dorchog fach ni, ond bod gan hon gydyn hir yn sticio i fyny o'i choryn fel helmet Almaenwr adeg y Rhyfel Gynta.

Ond fy ffefryn, ac fe arhosodd hwn yn ffefryn imi drwy'r holl daith, oedd y 'sigl-di-gwt' neu *Willie wagtail* (cynffon-daenwr Llathraidd, *Rhipidura leucophrys*). Deryn bach bywiog du a gwyn, ron' bach mwy



*Y sigl-di-gwt, neu Willie Wagtail*

na'n siglen fraith ni, oedd yn neidio yma ag acw i ddal pryfid ac yn siglo ei gynffon yn gyson – ond ddim i fyny ac i lawr fel ein siglen ni ond o ochr i ochr 'fatha ci! Wel roedd o'n ddoniol.



*…. ac mi oedd raid cael llun o'r Cwcabyra, yndoedd?*

***Awst 5ed*** – am dro ar hyd ymyl y llyn. Heidiau o chwiaid duon *(Anas superciliosa)*, chwiaid coed *(Chenonetta jubata)*, cwtieir moel

*(Fulica atra)*, tair math o fulfran – y fraith efo bol a bron wen *(Phalacrocorax varius)*, yr un fach ddu *(P. sulcirostris)* a'r gwanwr *(Anhinga melanogaster)*. Roedd dau greyr gwyn – yr un mawr *(Ardea alba)*, a'r un bach copog *(Egretta garzetta)*. Roedd yr un bach yr un peth yn union a'n creyr bach ni ond ei fod o'n wahanol, h.y. roedd ei draed a'i goesau fo'n ddu, dim traed melyn fel ein creyr bach ni. Ymhen ychydig ddyddiau roeddwn wedi gweld y trydydd o drindod y creyrod gwynion yma – sef y creyr gwyn canolig *(Ardea intermedia)*, sy'n enw gwreiddiol iawn! Adar oedd 'mbach yn wahanol oedd yr ibis gyddf-arw *(Threskiornis spinicollis)* a'r pelican *(Pelecanus conspicillatus)*.

Am dro efo Gwyneth gyda'r nos a dwad ar draws rhywbeth cyfarwydd – haid swnllyd o ieir Gini o gwmpas hen ffermdy cyfagos. "Does na'm gwell larwm na nhw" meddai Gwyneth, "a mae nhw'n dda iawn i dynnu sylw at nadroedd a'u cadw nhw draw". Mi fyddai'r *'Snake Patrol'*, fel y galwai hi nhw, yn crwydro gryn dipyn rownd yr ardal ac yn galw heibio'n gardd ni yn gynnar bron bob bore.



*Y Snake Patrol yn gadael yr ardd un bore*



*Y loricît seithliw (Trichoglossus haematodus)*

***Awst 6ed*** – ryw chydig lawr y ffordd yng nghefn y tŷ roedd clwstwr o goed gym (ewcalyptws) tal ac i fan'no y deuai heidiau swnllyd o gocatŵs mawr gwyn a loricîts lliwgar i f'yta hadau. Roedd y rhain yn adar swil iawn ac mi fu raid imi aros am rai wythnosau cyn cael lluniau da. Pam y swildod? Mae'r adar yma, y 'cocis' yn arbennig, yn medru bod yn bla ac yn ddinistriol iawn i gnydau a hydnoed i dai pobl. Swil cyfrwys felly, am fod pobl yn eu herlid.

Roedd llwyni *Grevillea* llawn



*'Cocis' fel cawod eira ar y sofl*

blodau gerllaw ac yn fa'ma y dechruais i ddwad i nabod y melysorion *(honeyeaters)* o ddifri. Hwn ydi'r teulu mwya o adar yn Awstralia, dros 60 ohonynt, ac efallai'r pwysica' am mai nhw sy'n bennaf gyfrifol am beillio blodau llawer iawn o goed a llwyni amlycaf Awstralia: y *Banksias*, *Grevilleas*, brwshis potel a thua 900 o wahanol goed ewcalyptws. Adra, wrth gwrs, y gwynt a gwenyn sy'n gwneud y gwaith peillio ac roedd hi'n dipyn o syrpreis i sylweddoli bod pethau mor wahanol yma. Ond mae'n gwneud synnwyr mewn gwlad sy' mor sych am y rhan fwyaf o'r flwyddyn â'r glawiad mor anwadal oherwydd dan amodau o'r fath mae pryfid yn anwadal hefyd a byddai dibynnu ar y gwynt yn wastraffus iawn.

O weld yr adar wrth eu gwaith, roedd y bardneriaeth rhyngthynt â'r blodau yn amlwg iawn. Roeddent wedi addasu'n berffaith i'w gilydd. Y blodau yn glystyrrau o diwbiau ryw 2" – 3" yr un, â'r blodigau unigol (tebyg i flodigau hirion y gwyddfid) wedi eu gosod yn glos at ei gilydd fel brwsh potel. Yr adar efo'u pigau hirfain, ychydig ar dro, â thafodau hirion i gyrraedd y neithdar yng ngwaelod pob blodyn. A thra eu bod wrthi, roeddent yn codi paill ar eu talcen a'i drosglwyddo i'r blodyn neu goeden nesa.

Mewn gwlad mor heulog mae'n rhad iawn i gynhyrchu neithdar – y cwbwl sy' eisiau at hwnnw yw dŵr, heulwen a charbon deuocsid. O ganlyniad, pan fydd coeden yn blodeuo, bydd yn aros yn ei llawn flodau am wythnosau lawer ar y tro ac yn cynhyrchu galwyni o neithdar i fwydo'r adar, fel tâl am eu gwasanaeth peillio.

Mi welais i 20-30 o felysorion o sawl rhywogaeth yn meddiannu coeden gym fawr. Pob un yn amddiffyn tiriogaeth oedd efallai cyn lleied a rhan o gangen ac yn cynnwys ryw ddwsin neu fwy o flodau. Fel y gallwch feddwl, mi oedd y ffraeo a'r cecru rhwng yr adar bach bywiog 'ma yn anhygoel. Y mathau bychain yn amddiffyn yn ffyrnig rhag eu cymdogion ac yna'r rhai mwy (yn rêl bwlis) yn symyd fel a fynon nhw o un cangen i'r llall gan achosi helbul a'r rhegi mwya' ofnadwy ymysg y rhai bychain.



*Melysor diaddurn (y bychan) yn dwrdio'r melysor melyn oedd yn tresmasu ar ei diriogaeth. Un blodyn Grevillia oedd ar y llwyn hwn.*

***Awst 7fed***– cael profiad o'r goedwig law go iawn. Mae'r amrywiaeth o gynefinoedd o fewn pellter byr i'w gilydd yn rhyfeddol yma. Clytwaith o dir amaethyddol cyfoethog, fforestydd glâw, planhigfeydd pinwydd, tir amaethyddol wedi ei adael ac yn mynd yn ôl i'r gwyllt.

Roedd Parc Cenedlaethol Hypipamee yn werth chweil – coedwig lâw aeddfed o gwmpas andros o bwll mawr dyfn oedd yn wddw i llosgfynydd fu'n ddistaw bellach ers ryw 10,000 o flynyddoedd. Dilyn llwybrau hyd llawr y goedwig ac ar rodfeydd drwy'r canopi at ymyl y pwll. Roedd rhai o'r coed yn ANFERTH, amryw wedi eu gorchuddio gan blanhigion epiffytig ac eraill wedi cael eu meddiannu gan y ffigysen dagu oedd yn tyfu drostynt gan eu cofleidio a'u gwasgu'n raddol i farwolaeth. Grant yn fy rhybuddio rhag y *Lawyer's vine* oedd â'i changhennau main main yn gwyro dros y llwybr. Roedd bachau erchyll arni. "Mae honna fel twrna'; unawith y ceith ei bachau arn't ti wnaiff hi ddim gollwng heb dynnu gwaed!"

Roedd llawr y goedwig yn dywyll ac yn oer a minnau'n difaru na fuaswn wedi rhoi côt. Lle distaw iawn hefyd ac mi fuom yn cerdded am hir cyn clywed aderyn. Ond yna: 'wsssssss-TSHIW!', yn union fel clec chwip. Hwn, yn addas iawn, oedd y 'deryn chwip' *(Psophodes olivaceus)*. Fe glywais y chwip sawl gwaith yn y math hwn o gynefin dros yr wythnosau nesa', ond dim golwg o'r deryn ei hun yn y canopi trwchus.

Cyrraedd ymyl pwll mawr Hypipamee ac edrych yn syth i lawr gannoedd o droedfeddi i'r dyfroedd 'di-waelod'. Bu deifwyr yn ei blymio ond mae mor ddyfn nes ni lwyddodd neb i gyrraedd ei waelod hyd yn hyn. Wrth lwc roedd un o wardeiniaid y Parc yn arwain ryw griw bach o bobl wrth ymyl ac fe'i clywais yn d'eud "Ylwch! Mae 'na chwibanydd aur *(Pachycephala pectoralis)* yn fan'cw." Rhaid cyfadde', d'on i 'rioed wedi clywed am y fath dderyn, ond roeddwn yn falch iawn o gael cip ohono am ei fod yn un o adar eiconig coedwig lâw gogledd Queensland.

***Awst 8fed*** – wrth fynd am dro bora 'ma dwad ar draws fy walabi cynta ac, wrth iddo sboncio'n braf drwy'r gwair hir a'r drysni, gweld pa mor berffaith oedd y dull yma o symyd drwy gynefin o'r fath. Roedd o'n mynd sbonc-sbonc-sbonc tra byddai dingo, dyn neu gi yn gorfod stryffaglio cymaint drwy'r drysni nes y byddai'n amhosib codi digon o gyflymder i'w ddal o.



*Weli di walabi?*

***Awst 10fed*** – i ddinas Cairns at Jenny (merch Gwyneth) a'i theulu. Cyfle i rodio'r 'Esplanade' hir ger y traeth. Gweld gwylan arian am y tro cynta. Hon oedd yr unig fath o wylan welais i tra yn Awstralia – llawer llai o amrywiaeth gwylanod yma na adra. Creyrod gwyn ar y llaid, cornicyll mygydog a rhydwr bychan – yr hutan fronddu *(Eleyornis melanops)*. Cinio yn yr enwog Pier Hotel: coffi a byrgar –

methu fforddio dim arall, ond o leia mi fedra'i ganmol fy mod wedi b'yta yno!

Ar y ffordd adra cael golwg ar y fferm lle roedd fy modryb Maggie (Wern, LLanfrothen gynt) â'i gŵr Hywel (Ty'n Twll, Trawsfynydd) yn tyfu cên siwgwr yn y 1950au – 60au, cyn i'r teulu symyd i Mareeba ar y llwyfandir i agor chwarel i adeiladu ffyrdd.

***Awst 12fed*** – efo Grant ar hyd y Palmerston Highway i warchodfa Mamu, sy'n rhan o Barc Cenedl-aethol Wooroonooran (enw da ynte?). Rhodfa uchel drwy'r canopy a dringo tŵr mawr i gael golygfeydd anhygoel dros y jyngl a'r wlad o gwmpas.

***Awst 15fed*** – wrth fynd am dro bora 'ma dwad ar draws haid fechan o'r dryw cefngoch *(Malurus melanocephalus)* yn gweithio'u ffordd drwy'r gwair a brwgaitsh ar ochr y ffordd. Wel am betha bach del, bywiog a phrysur.



*Dryw cefngoch yn yr hesg*

***Awst 18fed*** – codi'n gynnar i fynd am drip efo Aeron ('Buck'), Gwyneth ac Anwen i Cooktown, 200 milltir i'r gogledd. Gadael Mareeba am 7.20yb ac o fewn ½ milltir redden ni yn y *'bush'*. Heblaw am y ffordd darmac yr oedden ni'n teithio arni welson ni ddim unrhyw dystiolaeth o bobl am y 150 milltir nesa. Am hyd y gwela chi; prysgdir sych oedd yn goedwig agored ac yn glytwaith o goed gym amrywiol. Anwen yn esbonio fel yr oedd unryw fân newidiadau yn ansawdd, dyfnder a lleithder y pridd yn dennu gwahanol gyfuniadau o goed gym. Mi fuo' hi'n codi gwartheg ar dir tebyg yng ngorllewin y dalaith ar un adeg ac roedd yn ddifyr gwrando arni yn 'darllen y tirlun', gan gyfeirio at rai mathau o goed fel arwyddion o dir gweddol dda ac eraill o dir gwael.

Fy null i o nabod ansawdd y pridd, yn yr ardal rhwng Mareeba a Tinaroo, oedd yn ôl lliw y tociau morgrug ar ochrau'r ffyrdd. Tociau browngoch yn dir da a thociau llwyd yn dir gwael. Hawdd oedd gweld mai yn ardal y tociau coch y ceir y ffermydd siwgwr, bananas, afocados, coffi ayyb., tra bod tiroedd y tociau llwydion, oedd wedi cael eu gosod gan y Llywodraeth i'w clirio a'u hamaethu ryw ganrif yn ôl, bellach dan goedwigoedd pîn neu wedi eu gadael i droi'n ôl yn goedwig frodorol.

Prin y gwelais i adar, roedd troed Buck reit i lawr ar sbardun y Toyota 4x4 mawr, ond mi gefais gip ar emiw yn y pellter, barcud neu ddau ac ambell haid fechan o'r parot llwyd a pinc – y Galà *(Elophus roseicapilla).*

Cerrig o chwarel Buck oedd yn y tarmac yr holl ffordd a bu raid symyd y chwarel ddwywaith cyn i'r ffordd 'newydd' gyrraedd Cooktown. Aros am 'bach yn



*Y 'Saltie' mawr ar lan yr afon*

Lakeland i gael golwg ar chwarel ola Buck, y Butcher's Hill Quarry. Roedd o newydd werthu hon ac ymddeol ryw fis ynghynt ond roedd o am ei dangos i ni a gwneud yn siwr fod y gath yn iawn, sef cath y swyddfa a'r barics. Mae'n debyg fod ganddo hiraeth ar ôl pws ac mi oedd hi yn falch o'i weld o, yn enwedig pan aeth i nol tun bwyd.

Tre fechan, poblogaeth tua 2,000, oedd Cooktown efo golygfeydd anhygoel o ben Grassy Hill gerllaw dros yr arfordir, Mount Cook yn y cefndir ac aber yr Afon Endeavour. Wedi aros am beint mewn hen dafarn sinc hen ffasiwn, y *Lion's Den*, dyma'i chychwyn hi am y de gan ddilyn y ffordd bridd arw drwy'r jyngl arfordirol am Cape Tribulation. Wel am ffordd anhygoel – nadreddu am ddegau o filltiroedd ac i fyny ac i lawr gelltydd serth fyddai'n hollol amhosib yn y tymor gwlyb (Rhagfyr - Mawrth). Dim siawns gweld, heb son am dynnu llun dim byd am fod Buck yn gyrru fel cath i gyth (roedd o'n rasio moto beics pan yn ifanc) nes ein bod fwy yn awyr na ar y sêt, cymaint oedd y 'sgytian. Roedd o am inni gyrraedd yn ôl i Mareeba cyn iddi d'wyllu, medda fo, ac mi wnaethon ni hefyd.

Ychydig wedi pasio pentre brodorol Wajal-wajal dyma groesi'r rhyd yn yr Afon Bloomfield ac wedi dringo ryw chydig fe gawsom gyfle i gael ein gwynt atom a mwynhau golygfa wych o'r afon yn dolennu drwy'r goedwig. Ond aros am 'bach …be ydi hwnna ar lan yr afon? Waw! Crocodeil dŵr-heli anferth *(Saltie)*, mae'n rhaid ei fod 20-25' o hyd.

Creadur go beryg ydi hwn, gall nofio'n gyflym dan yr wyneb a lawnsio'i hun i ddal ei brae ryw 3-4 llath o ymyl y dŵr. Wedi cyrraedd traeth bychan hyfryd Cape Tribulation, sylwi ar yr arwyddion rhybudd: bod *Salties* o gwmpas ac na ddylsai neb fynd i nofio; i fod yn ofalus wrth lanio o gwch neu ei byrddio ac i beidio codi pabell dros nos yn rhy agos i'r traeth neu'r afon.

***Awst 19eg*** – dy' Sadwrn: darlledIad Sgeip i Galwad Cynnar, Radio Cymru. Roedd hi'n 7.30yb yng Nghymru, ond 4.30yh yma – oedd yn amser call iawn o'm rhan i. Diweddaru'r 'Bwletin o Bendraw'r Byd' dwi wedi bod yn ei yrru bron yn ddyddiol i'r Tywyddiadur ar wefan Llên Natur.

(i'w barhau y tro nesa)

**Twm Elias**

# ADAR Y DOLIG (1) Y TWRCI

**Yn ôl pob sôn, mae y mae tyrcwn, sef yr *(Agriocharis ocellata)* yr ydym ni mor gyfarwydd â nhw (bellach) ar fyrddau gwledd ein Nadoligau Cymreig yn gyn-frodorion pluog o Benrhyn Iwcatán, Mecisco, Gwatemala, a Belize. Ond gwae yr adar boliog hyn oherwydd ie! cyn y Dolig, os nad cynt, gwelir agosáu eu Hawr Fawr, pryd y'u lleddir wrth eu hugeiniau, cannoedd, a'u miloedd ar ffermydd ac mewn ffatrioedd tyrcwn led-led gwledydd Prydain.**

Tipyn gwahanol ydyw cefndir y tyrcwn gwyllt, (*Meleagris gallopavo*) sy'n byw'n hollol rydd yng Ngogledd Mecsico a Dwyrain U.D.A. Y maent hefyd 'run mor effro, os nad byw, ar stampiau post gwahanol wledydd. Felly cyn y Dolig eleni, bluen wrth bluen, crib wrth grib, cynffon wrth gynffon, gadewch inni archwilio ddetholiad ohonynt ar ffurf stampiau post.

**CIWBA**




Mae'r gwledydd comiwnyddol 'ma yn hapus iawn i roi lle amlwg i bethau sy'n berthnasol i fywydau pob dydd y werin gyffredin. Dyma un, o'r pum stamp lliwgar, a gynhyrchwyd yn 2006, a'r oll yn ymwneud â dofednod,- yr ŵydd, ffowlyn Guinea, ffesantod, ac ie, wir i chwi rhen dwrci triw a ffyddlon! Ystyr *Aves de corral*, gyda llaw, yw adar y buarth

**COREA**




Gwlad gyfrinachol iawn yw Gogledd Corea, ond o leia rydym yn gwybod bod twrcwns yno!

**CYPRUS**





Stamp gyhoeddwyd yn 2009, yn un o gyfres am adar cyfarwydd y buarth.

**FUJEIRA**

Yng nghwlff Persia mae'r 'wlad' fechan unigryw hon, sy'n cynhyrchu stampiau ar bob pwnc dan haul.



**RWANDA**




Mae Rwanda wedi cyhoeddi stampiau post sy'n portreadu'r diwydiant amaeth ar sawl achlysur. Er enghraifft gwenith, (1962), gwartheg (1965), hefyd defaid, geifr a gwartheg (1978). Fel y gwelwch, nid anghofiwyd ran pig a phluen mo'r twrci chwaith! Yr achlysur oedd Blwyddyn Gwella Cynnyrch.

**RWMANIA**




Yn y flwyddyn 1963 bu i Rwmania gynhyrchu stampiau post lliwgar, (saith i gyd) sy'n ymwneud â dofednod, yn eu plith ieir, gwyddau, chwiaid a thwrcïod tra nobl!

**RWSIA**




Stamp post sy'n portreadu twrci? - y flwyddyn 1996.

**SELAND NEWYDD**




Bu i'r ddwy ynys ofalu dangos pwysigrwydd amaethyddiaeth, a gwnaed hynny drwy gyfrwng eu stampiau post yn dangos defaid a gwartheg dros y blynyddoedd, e.e. yn 1963 cynhyrchwyd pum stamp post yn ymwneud â gwahanol fridiau o warthog. Roedd yn rhaid aros hyd 1995, yn rhan o gyfres Creaduriaid y Ffermydd, cyn gweld rhen *dwrci*'n ymddangos ar stamp post!

**Dafydd Guto**
**Llanrug**

**Wyddoch chi?**

Bu bron i'r twrci gael ei fabwysiadu yn dderyn cenedlaethol yr UDA. Roedd yn dipyn o arwr i'r Americanwyr am fod y ceiliog yn ymosod ar y milwyr cotiau cochion Prydeinig adeg y Rhyfel Annibyniaeth – roedd lliw y cotiau yn rhy debyg i liw pen ceiliog arall!

# Y DEWRAF, EIDDILAF O'N HADAR MÔR



*(Llun: Wikipedia - Richard Crossley}*

Toc wedi hanner nos. Noson fwyn a'r ffurfafen yn berwi o sêr. Tonnau llaethog yn llyfu'r clogwyni oddi tanaf a'r môr yn berlau arian i gyd. Mae'r hen chwarel lle'r eisteddaf yn segur ers dwy ganrif a mwy ond yn gweu drwy'i gilydd, fel ystlumod chwil, mae yna gannoedd ar gannoedd o adar – amryw ohonynt yn sgimio heibio o fewn modfeddi i mi.

Ar eu ffordd i'w nythod mewn agennau yn y creigiau y maent, a gwnânt hynny gefn nos er mwyn osgoi ymosodiadau'r gwylanod gwancus. Pedrynod drycin ydynt, a hwy yw ein hadar môr lleiaf un.

Y naturiaethwr byd-enwog, Ronald Lockley (1903-2000) o'r Eglwys Newydd, a ddarganfu yn ystod haf 1928 fod yna boblogaeth sylweddol ohonynt yn nythu ar Ynys Sgogwm, sy'n gorwedd yn y môr i'r de o Ynysoedd Dewi, Gwales a Sgomer. Yn 1933, sefydlodd Lockley wylfa adar yno – y gyntaf yng Ngwledydd Prydain – gan wneud ymchwil arloesol ar adar môr, yn cynnwys astudio bywyd ac ymddygiad pedrynod drycin.

Ar ddechrau ei lyfr *Flight of the Storm Petrel*, mae'n disgrifio cydio yn un o'r pedrynod a'i roi ar gledr ei law:

"Am ysbaid, swatiai'r aderyn dieithr â'r llygaid pefriog, du ar gledr fy llaw'n gwbl lonydd. Mae'n siŵr ei fod yn syfrdan ar y pryd oherwydd fe'i tynnwyd o'i agen yn y clawdd cerrig i ganol golau'r haul.

Roeddwn wedi symud y garreg yr oedd yn llechu y tu ôl iddi. Rhoddodd yr aderyn y gorau i ganu grwndi ac encilio i gefn y twll, gan ddatgelu un ŵy bach gwyn mewn pant bychan yn y ddaear.

Am greadur eiddil! Prin yn fwy nag aderyn to ond yn fwy lluniaidd, yn hirach ei adenydd, ac yn pwyso dim ond owns."

Amcangyfrifir bod pum mil ohonynt yn nythu ar Sgogwm heddiw. Adar y cefnfor ydynt ac un o ryfeddodau natur i mi yw'r modd y gall adar mor eiddil â hwy oroesi gerwinder ac enbydrwydd y môr agored.

Roedd hi'n ddiwrnod tymhestlog iawn pan welais rai ohonynt am y tro cyntaf. Ar rodfa'r môr yng nghysgod Castell Cricieth yr oeddwn i, ac roedd stormydd y tridiau blaenorol wedi gyrru'r pedrynod at y glannau ar benllanw, i chwilio am y bwyd a frigai i'r wyneb wrth i'r tonnau gorddi.

Prin y gallai fy nghyfaill a minnau sefyll yn y fath wynt. Dymchwelai'r glaw yn genllif ond, yn sydyn, dyma

sylwi ar un aderyn bychan du, a phatshyn gwyn ar ei grwmp, yn 'cerdded' a sboncio ar y tonnau gan godi tamaid o fwyd fan hyn a thamaid o fwyd fan draw.

Am y ddwyawr nesaf, buom yn gwylio'r naill bedryn ar ôl y llall yn 'dawnsio' felly ar frig y tonnau. Synnwn i ddim i ni weld tua 90 ohonynt, yn canlyn ei gilydd fesul un neu'n hel eu tamaid mewn grwpiau bychain o dri neu bedwar.

Bachigyn yr enw 'Pedr' yw 'pedryn', ac mae'n gysylltiedig â'r hanesyn yn y Beibl am Pedr yn 'cerdded' ar fôr tymhestlog Galilea. 'Cas gan longwr' yw enw arall arno, ac adlais yw hynny o'r goel ymysg llongwyr bod pedrynod drycin yn rhagfynegi tywydd garw. Mewn oesau a fu, credid mai disgwyl i'r morwyr foddi yr oeddynt, wrth ddilyn eu llongau, er mwyn herwgipio eu heneidiau a'u trawsnewid yn bedrynod!



*Pedryn drycin yn 'cerdded' ar y dŵr*
*(Llun: Flickr – Cortinis)*

Yn fuan iawn ar ôl dechrau ar ei ymchwil 10-mlynedd ar adar drycin Manaw yn 1928, sylwodd Lockley fod yr adar yn tueddu i gadw draw os oedd ef yn aflonyddu arnynt yn rhy aml. Aeth ati, felly, i lunio 'giatiau' bychain â choesau matsis a choesau rhedyn a'u gosod wrth geg y nythod. Pan fyddai'r adar yn gadael eu nyth, byddent yn ddiarwybod yn gwthio'r giât tuag at allan ac, wrth iddynt fynd i mewn, byddent yn gwthio'r giât tuag at i mewn. Roedd yn ddull syml iawn o gadw golwg ar eu mynediad a'u dyfodiad.

Defnyddiodd Lockley yr un ddyfais wrth fynd ati i astudio pedrynod drycin o 1931 ymlaen, ond gan mai mewn agennau bychain mewn waliau a chreigiau y nythai'r pedrynod, gwnâi Lockley y giatiau o goesau planhigion llai. Hen weiren wedi'i phlygu am yn ôl yn un pen, i ffurfio bagl fechan, oedd yr adnodd arall a ddefnyddiai. Gyda'r fagl hon, byddai'n cydio'n ofalus yng nghoes y pedryn ac yn tynnu'r aderyn yn araf o'r nyth a'i ddal wedyn yn ei law er mwyn ei bwyso a'i archwilio.

Treuliai nosweithiau bwy'i gilydd yn gwylio'r pedrynod yn dychwelyd i'r ynys fin nos. Byddai'n penderfynu dilyn un ohonynt a hoelio'i sylw arno wrth iddo gylchu am hydoedd uwch ei ben. Yn y diwedd, byddai'r aderyn yn hedfan ymaith neu'n uno â dau neu dri o bedrynod eraill. Math o ddawns ydoedd wrth i adar heb gymar daro heibio i baratoi at gymdeithasu a pharu. Roedd yn rhan bwysig iawn o'r cylch nythu.

Yn aml, byddai'r ddawns yn digwydd uwchben un o'r nythod, a byddai hanner dwsin neu ragor o'r pedrynod bryd hynny'n ymuno â'i gilydd. Ar amrantiad, byddai'r ddawns yn cyflymu a chlywid ambell ochenaid o gyffro wrth i'r adar led-gyffwrdd â'i

gilydd a gostwng yn is ac yn is ar ffurf ffigwr wyth.

Wrth i Lockley archwilio'r pedrynod, sylwodd fod gan bob un batshyn moel o dan ei fynwes. Pwrpas y patshyn, a grëir wrth i'r aderyn ddiosg rhai o'i blu, yw cadw tymheredd yr ŵy a ddodwyir yn gyfuwch â gwres y corff. Nid oes gan bob rhywogaeth batshyn moel fel hyn. Er enghraifft, nid oes gan fulfran na hugan un am eu bod hwy'n cadw eu hwyau'n gynnes drwy eu gosod o dan eu traed ar y clogwyni. Mae gan wylanod, ar y llaw arall, dri phatshyn moel ar gyfer eu nythaid arferol o dri ŵy.

Prin yw'r dystiolaeth bod gan adar, yn gyffredinol, synnwyr arogleuo da ond y gwrthwyneb sy'n wir am adar tiwbdrwyn fel y pedrynod drycin. Drwy arsylwi a chynnal amryw o arbrofion, roedd Lockley yn bendant o'r farn fod gan bedrynod ffroen dda. Dyna pam y gwelir hwy, ynghyd ag adar tiwbdrwyn eraill, yn heidio o bell at longau pan deflir gweddillion creaduriaid a flingwyd neu a ddiberfeddwyd i'r môr. Bydd y pedrynod yn codi a bwyta'r tameidiau bach a'r gwaed ceuledig sy'n nofio ar yr wyneb.

Pan fyddai Lockley yn gafael mewn pedryn, byddai'r aderyn yn ddieithriad yn poeri hylif olewaidd arno. Cynnyrch deietegol sy'n crynhoi yng nglasog yr aderyn yw'r hylif hwn a bydd yn troi'n fraster, maes o law. Wrth storio'r hylif yn ei stumog, mae gan y pedryn gronfa barhaol o fwyd a fydd yn caniatáu iddo fynd heb fwyd am ddyddiau, os bydd angen – er enghraifft, pan fydd yn gori neu pan



*Un bychan ydi o, yn ffitio ar gledar llaw. Sylwch ar y tiwb trwyn nodweddiadol. (Llun: Wikipedia - Jaime Jahncke)*

fydd yn methu dod o hyd i fwyd mewn tywydd gerwin. Gall yr aderyn môr bychan hwn fynd heb fwyd am oddeutu wythnos, tra byddai aderyn tir o faint aderyn to'n marw o newyn, yn ôl pob tebyg.

Ac mae ei gân yn unigryw. Canu grwndi y bydd: "Yrr-rr-rr-rr-rr-rr-rr-rr" a "Hic!" sydyn fel yr igian ar y terfyn, ac yna ailadrodd dro ar ôl tro. Aeth rhywun ati i gyfrif sawl "Hic!" a glywodd mewn un rhediad di-dor. 83 oedd y cyfanswm!

Pwrpas y canu grwndi yw denu cymar. Dywed Lockley y gallech glywed hyn yn y prynhawn ac o dro i dro yn y bore, yn enwedig pe baech yn dynwared y sŵn wrth geg y nyth, ond cyn gynted ag y byddai'r haul yn machlud, dyna pryd y byddai'r *crescendo* mawr yn cychwyn.

Cân wahanol fydd gan y pedryn sydd ar ei ffordd yn ôl i'w nyth. Bydd ef yn canu nodyn meddalach (tebyg i "Cwic-yrr"), yn ei ailadrodd ddwywaith neu dair ac, ar ôl rhoi dau neu dri dro chwim yn yr awyr wrth fynedfa'r nyth, bydd yn llithro i mewn yno'n dawel.

Dim ond yn y cyfnod cyn-dodwy, y cyfnod deor a'r cyfnod magu y bydd

yna gymar yn y nyth i dywys y pedryn adref drwy ddefnyddio llais. Mae'n rhesymol tybio, felly, y daw'r pedryn o hyd i'w gartref ar yr adegau eraill drwy gofio cliwiau gweledol. Gall hefyd weld yn y tywyllwch yn well o lawer na dyn.

Os bydd y ceiliog a'r iâr yn goroesi drycinoedd y cefnfor ac yn dal yn rhydd o afael adar ysglyfaethus a chreaduriaid tanforol, byddant yn parhau'n ffyddlon i'w nythle ac i'w gilydd am weddill eu hoes. Byddant hefyd yn rhannu eu cyfrifoldebau'n weddol gyfartal, o ran gori ar yr ŵy a bwydo'r cyw.

Fel llawer o adar eraill, mae pedrynod drycin yn hoff iawn o dwtio'u plu ei gilydd, yn enwedig plu'r gwar a'r gwddf. Bydd hyn yn cryfhau'r cwlwm sydd rhyngddynt, a byddant yn aml yn mynd ati i wneud hyn cyn cyplu.

Yn ôl tystiolaeth Lockley, y pedrynod magu a farciwyd ganddo fyddai'r cyntaf i ddychwelyd i Sgogwm yn y gwanwyn – yn ystod pythefnos gyntaf Mai – a byddai llu o bedrynod eraill, na chawsant eu marcio, yn chwyddo'r boblogaeth ddiwedd Mai, drwy gydol Mehefin a hyd at ganol Gorffennaf.

Y ceiliog fydd yn cyrraedd gyntaf. Ei swyddogaeth ef yw canfod y nyth, ei feddiannu, dal gafael arno a denu ei gymar yno. Pan fydd y ddau ohonynt yn ailgyfarfod (ni fyddant yn gweld ei gilydd yn y gaeaf), bydd ef yn ffrwythlon ac yn barod i gyplu ond bydd ar yr iâr angen cyfnod o anwylo cyn y gall greu ŵy.

Am 6½ wythnos cyn y dodwy, bydd y ddau'n ymweld â'u nyth yn y nos – weithiau gyda'i gilydd; dro arall ar eu pennau'u hunain. Yn y cyfnod hwn, anaml y byddant yn y nyth yn ystod y dydd.

Dim ond un ŵy a ddodwyir ac, ar yr adeg hon, bydd yr iâr yn aml yn gadael y nyth am ddeuddydd neu dri, a'r ceiliog yn gori tra bydd hi i ffwrdd. Os bydd y ceiliog yn absennol pan ddodwyir yr ŵy, bydd yr iâr fel rheol yn aros hyd nes y bydd ef yn dychwelyd. Weithiau, fodd bynnag, ni fydd hi'n gwneud hynny ac, yn yr achos hwn, gadewir yr ŵy am gyfnod. Mae cofnodion o ŵy'n cael ei adael fel hyn am hyd at 11 diwrnod, ar ddechrau'r cyfnod gori, ac yn deor yn llwyddiannus.

I bedrynod drycin, daw'r dodwy cychwynnol i'w anterth yn y drydedd wythnos ym Mehefin. Bydd pethau'n tawelu ychydig dros y deng niwrnod nesaf ond yn brysurach nag erioed rhwng y 30ain o Fehefin a'r 5ed o Orffennaf.

(i'w barhau)

**Ieuan Bryn**



*Mae cyw y pedryn drycin fel pelen o fflyff. Mae angen côt gynnes arno am y bydd yn cael ei adael am gyfnodau hir yn y nyth ar ei ben ei hun. Gall fod yn oer iddo ym mhendraw twll tywyll o dan y creigiau. (Llun: www.Tumblr.com)*

# SAFWN YN Y BWLCH



*Y bwlch yn y clawdd llanw – gyda'r saeth yn dangos lleoliad y nyth*

**Yn ystod storm enbyd Chwefror 12fed eleni, fe ddrylliwyd y clawdd llanw sy'n diogelu caeau dyffryn Maentwrog oddi wrth yr Afon Ddwyryd. Dros nos, fe ymddangosodd bwlch o rhyw 5 metr ynddo. Yr oedd ochr y bwlch fel pe tae wedi ei dorri â chyllell gyda 'wal' o bridd yn y golwg.**

Ddiwedd mis Mawrth, fe sylwodd **John Parry Williams** a **Ieuan Bryn** ar dwll bach oedd wedi ymddangos yn y bwlch (gweler y saeth goch yn y llun) ac olion pridd ffres oddi tanno.

Mae'n rhaid bod **glas y dorlan** (aderyn sydd i'w weld yn aml ar hyd yr afon) wedi cymryd ffansi at y bwlch fel man delfrydol i nythu.

Ar ôl treulio oriau yn cadw llygad ar y twll o hirbell, gwelsant y "glas" yn mynd i mewn ac allan. Oedd, yr oedd yno nyth!

Yn anffodus, nid y 'glas' a'r ddau adarwr yma oedd yr unig rai i gymryd diddordeb yn y bwlch. Yr oedd **Cyfoeth Naturiol Cymru** hefyd yn bwriadu llenwi y bwlch ac yr oedd deunyddiau wedi eu casglu ar ochor y briffordd yn barod ar gyfer dechrau ar y gwaith. Sylweddolai JP a Ieu y byddai unrhyw waith a wnaed yn agos at y nythfa yn arwain at y 'glas' yn gadael y nyth am byth.

Fel mater o frys, cysylltwyd ag



*Yn dilyn y cyfnod nythu, tynnwyd y llun hwn o’r "glas" yn ei gynefin ar lannau'r Ddwyryd*

awdurdodau y Parc ac â Chyfoeth Naturiol i’w hysbysu am y nyth gan eu rhybuddio i adael y gwaith nes i’r cyfnod nythu basio.

Wrth lwc, y swyddog dan sylw oedd neb llai na Rhodri Dafydd, cyn ysgrifennydd Cymdeithas Ted Breeze. Cafwyd ymateb positif ganddo gyda throad y post yn diolch am yr wybodaeth ac yn dweud ei fod wedi rhybuddio ei gyd-weithwyr yn yr adran amddiffyn rhag llifogydd nad oeddent i fynd ymlaen â’r gwaith tra’r oedd yr aderyn yn nythu. Yr oedd wedi eu hatgoffa bod glas y dorlan wedi ei restru fel aderyn prin ar Atodlen 1 o Ddeddf Gwarchod Bywyd Gwyllt ac y byddai unrhyw beth a fyddai yn ymyrryd ar ei nyth yn anghyfreithlon. Roedd yn ***rhaid*** oedi cyn dechrau ar y gwaith.

A dyna ddigwyddodd. Fe gadwodd JP a Ieu olwg ar y nyth dros yr haf ac yn wir i chi, llwyddodd **pedwar cyw** i hedfan o’r nyth.

Yr oedd ymateb sydyn aelodau Cymdeithas Ted wedi achub y dydd ac wedi diogelu y teulu bach.

Ar ddiwedd yr haf, fe gwblhawyd y gwaith o gau’r bwlch er mwyn diogelu y tir amaethyddol rhag llifogydd. Wrth lwc, ni fu storm na llanw uchel yn ystod yr haf felly ni ddioddefodd neb, i’r gwrthwyneb, stori o lwyddiant oedd hon.

Fe fydd yn rhaid i’r ‘glas’ fynd yn ôl i’w hen nythfa y flwyddyn nesaf, ond bydd ei gyfeillion o Gymdeithas Ted yn dal i gadw llygad arno a’i warchod.

**Gareth Jones**

**CLODDIAU LLANW MAENTWROG**

Codwyd y cloddiau llanw i ennill Morfa Maentwrog ddechrau’r 19fed ganrif. Cafodd William Oakeley, Plas Tan y Bwlch, fedal aur am y gwaith gan y Bwrdd Amaethyddol yn 1806.

# TAITH LLANDANWG A MOCHRAS - 15/11/2014



**Y cyntaf o'r mis oedd dyddiad gwreiddiol taith gynta tymor ond bu raid ei gohirio am fythefnos. Da oedd hynny oherwydd mi gawson dywydd bendigedig ar y 15fed o'i gymharu â'r stryllwch gafwyd ar y 1af. Roedd dwsin o bobl wedi troi allan a phawb yn falch o weld ei gilydd am na fu taith ers rhai misoedd. Parcio ar ochr y ffordd cyn cyrraedd y maes parcio swyddogol i arbed prynu ticed (!) ac i lawr a ni am y traeth.**

Braidd yn gynnar i adar y gaeaf oedd hi, er yn ôl John Parry, bod criw bychan o ryw 9 o elyrch y gogledd eisoes wedi cyrraedd Morfa Glaslyn ryw chydig dros wythnos ynghynt. Roedd y sylw i gyd yn mynd felly i fili dowcar allan ar y dŵr a nifer fechan o biod môr, cwtiad y traeth, cwtiad torchog a glyfinir ymysg y cerrig ym mhen Harlech o'r traeth.

Roedd y traeth yn fwy tywodlyd o lawer nag arfer - y tywod heb gael ei sgubo gan y tonnau i draeth a thwyni Harlech hyd yn hyn. Ryw fynd a dŵad fydd y tywod, yn dibynnu ar rym y stormydd.



Cyrraedd y pen, lle mae'r Afon Artro yn gwagio i'r môr, i gael golwg dros ehangder y morfa tywodlyd tu cefn i'r twyni. Roedd 'na dipyn mwy o adar i'w gweld yn fa'ma: teulu o 6 chwadan frongoch yn yr afon, 4 alarch, tua 200 o chwiws (chwiwellod), crëyr glas, tua 200 o wylanod - penddu a phenwaig rhan fwya, efo ryw chydig o rai cefnddu lleia'. Ryw ddwsin o goesgochiaid, haid fechan o bibydd y mawn yn y pen pella a haid fechan o ddrudws dros y caeau tu draw.

Gwaetha'r modd fe ddaeth 'na fflotila o gaiacs i lawr yr afon a haid o blant swnllyd o un o'r canolfannau awyr agored yn rhywle. Fe gododd y chwiwellod a dod drosom am y môr a symud ryw 4-500 llath, neu wasgaru, wnaeth bron bob dim arall. Fe symudon ninnau gan

ymlwybro ar hyd y tywod ar lan yr afon i gyfeiriad Pensarn ac, ymhen 'chydig funudau, fe ddaeth y caiacs hefo ni. Niwsans efallai, ond roedd yn amlwg fod yr hen blant yn cael modd i fyw - profiad gwerth chweil a gwahanol iawn i'w byd dinesig.

Wrth inni aros am 'bach iddyn nhw fynd yn eu blaenau, dyma Dan yn sylwi ar ryw lwmpyn llwyd ar y glastraeth yr ochr arall i'r afon. Ai carreg ydy honna? Dyma roi'r telisgôp ar waith - na, hebog tramor oedd yno, ceiliog ifanc mae'n debyg. Roedd o'n trwsio'i blu yn hamddenol braf ac yn amlwg ddim wedi cael ei 'styrbio gan y caiacs. Ymhen sbelan mi fyddai'n codi'n sydyn i erlid rhai o'r adar, ond byddai'n rhaid iddyn nhw setlo eto ac anghofio ei fod o yno i gael y fantais orau i hela.

Troi i'r glastraeth a chyfeirio yn ein holau rhwng tociau eithin a brwyn at gefnau'r twyni. Ar ffens ar ben y morglawdd gerllaw dyma sylwi ar glochdar cerrig yn codi i ddangos ei hun. O ia? Pam bod hwnna'n gwneud cymaint o sioe? Ond dyma weld pam yn fuan iawn.



Fe ddaeth iâr ato fo o rywle ac yn sydyn roedd 'na geiliog arall yn closio ar hyd pen y clawdd o gyfeiriad y maes parcio. Roedd hi'n amlwg yn gystadleuaeth am sylw'r iâr. Wedi sefyll ei gilydd, fflicio'u hadenydd a chodi i'r awyr am dipyn fe symudodd y ceiliog cynta, a'r iâr hefo fo, ymhellach ar hyd y clawdd i gyfeiriad yr aber gan adael y ceiliog arall yn adyn unig, a'r sioe ar ben.

Dyma alw heibio Eglwys Llandanwg sy' wedi ei chladdu bron yn y dwnen. Wrth lwc, roedd hi ar agor efo rywun yn edrych ar ei hôl ac yn ein croesawu. Hwn oedd y tro cynta i rai o'n criw gael mynediad iddi ac mi oedd yn braf iawn medru sawru awyrgylch hynafol fendigedig yr hen addoldy a chael golwg ar y beddrodau canoloesol cynnar ddaeth i'r fei yn ddiweddar yn y twyni. Hon yw un o sefydliadau eglwysig hyna'r fro; fe'i sefydlwyd yn 435 OC.

O'r Eglwys i'r dafarn. Symud i'r Fic yn Llanfair am ginio. Syniad da iawn ond ei bod yn anodd symud oddiyno wedyn! Cawsom ginio gwych a wedyn seiat dros ein coffis a ½ peintiau rownd y bwrdd, yn ryw fath o fini-bwyllgor i drafod gweithgareddau'r flwyddyn newydd. Ond codi oddiar ein tinau oedd raid a symyd yn gonfoi heibio'r maes awyr at ymyl yr aber.

Cael golwg ar y gwylanod ayyb o'r ochr arall i'r aber y tro hwn. Yna dilyn y llwybr ar draws y morfa - hen

lwybr y sentris i warchod y maes awyr adeg y rhyfel oedd hwn ac roedd yn dda gweld ei fod wedi cael ei drwsio yn ddiweddar i'w ymgorffori yn rhan o'r Llwybr Arfordir newydd. Roedd y drudws yn bwydo yn y borfa o flaen y maes awyr erbyn hyn a chawsom olwg dda ar ddau neu dri clochdar cerrig ar y ffens gerllaw.

Rai blynyddoedd yn ôl roedd awyrennau di-beilot, a elwid yn Jindvik, yn hedfan oddiyma a chafwyd ambell stori am y rhain yn crashio i'r ddaear yn yr ardal. Cyn bo hir bydd y safle yn faes arbrofi I 'adar angau' milwrol, neu drôns hedegog. Mae gen i ryw ddelwedd ryfedd yn fy mhen o drôns hedegog?!

Dyma Twm Elias yn sôn am arwain pobl ar gyrsiau adar o Blas Tan y Bwlch ar hyd y llwybr hwn pan oedd arwydd mawr yn rhybuddio pobl am awyrennau'n hedfan yn isel iawn dros y morfa wrth esgyn neu lanio ar y maes awyr. Yntau'n rhybuddio'r adarwyr, pan fyddai'r gwaeddi "*Duck*!" mai dim sefyll a chodi eu binocs i'w llygaid oedd o'n feddwl, ond "*hit the deck!*".

Fe aethom rownd ymyl y morfa at y llyn bychan ar gyrion Ynys Mochras; d'eud "helo" wrth y pâr o elyrch oedd arno. Tan yn ddiweddar roedd yn bosib gweld olion hen doman gregyn hynafol iawn ym mhen pella'r llyn. Mae hon yn dyddio i Oes-y-Cerrig Cynnar



(Mesolithig) pan ddeuai casglwyr-helwyr cyntefig yma i gasglu cregyn dros y gaeaf, ryw 4-8,000 o flynyddoedd yn ôl.

Doedd dim llawer i'w weld heddiw am fod y safle wedi ei gorchuddio â phridd. Trueni o'n safbwynt ni oedd am gael gweld y cregyn a cherrig berwi yn y doman ond da o beth efallai o ran y safle ei hun - o leia mi fyddai hyn yn ei gwarchod rhag erydu a phobl yn turrio am siwfinïars. O leia fe gafwyd tameidiau o gerrig berwi. Byddai pobl yn poethi y rhain mewn tân a'u rhoi mewn cawg pren o ddŵr. Am y byddai gwres y cerrig o'r tân yn cyrraedd 500°C, buan y byddai'r dŵr yn berwi i goginio cig. Hawdd nabod y cerrig berwi - roeddent yn goch o effaith y tân, tua maint dwrn ac o wenithfaen crisialog fyddai'n dal y gwres yn well heb hollti.

Wrth ddilyn y ffordd darmac ar draws y morfa yn ôl at y ceir fe welsom sawl coesgoch, gylfinir yn hedfan uwchben a dau grëyr gwyn. Pan ddaeth un crëyr gwyn yma ganol y 1980au fe ddaeth cannoedd o 'dwitshyrs' yma i'w weld, heddiw mae'n byw ac yn bod yma.

# CUDYLL COCH PEN LLŶN



Ers tair blynedd bellach, yr ydym wedi cael y fraint o gadw llygad ar nyth pâr o gudyll coch sy'n nythu ger un o draethau gogleddol Pen Llŷn.

Yr oedd yn aderyn eithaf cyffredin rai blynyddoedd yn ôl, ond bellach y mae pethau wedi dirywio; er y gwelwch ef yn weddol aml ar ochrau y traffyrdd, y mae wedi prinhau yn arw ar yr arfordir.

Y peth cyntaf a wnaethom ar ôl canfod y nyth oedd rhoi gwybod i Kelvin Jones (BTO) amdano a daeth efo ni i'w weld.

Am fod y nyth o fewn ychydig lathenni i Lwybr yr Arfordir, y mae'r adar wedi hen arfer â phobl yn pasio ac felly nid oeddent yn ofnus iawn. Yr oedd yn bosib edrych ar draws oddi ar y llwybr a gweld i mewn i'r nyth – ac am nad yw y cudyll yn un o'r adar a ddiogelir gan Atodlen 1, nid oes gwaharddiad ar dynnu llun o'r nyth (ar yr amod nad yw rhywun yn tarfu dim ar yr adar wrth gwrs).



Yr oedd gwanwyn 2013 yn un oer a gwlyb, a chredem nad oeddem am ddod o hyd i'w nyth yr ail flwyddyn – ond, ***bum wythnos*** yn ddiweddarach na 2012, gwelsom y nyth, ac fe fagwyd dau gyw yn llwyddiannus.

Eleni, yr oedd y gwanwyn yn well, a daeth yr adar yn ôl i'r un safle â 2012, fwy neu lai i'r diwrnod ac fe wnaethant lwyddo i fagu pedwar cyw.



*Gwledda ar aderyn*

Daeth Kelvin Jones a Tony Cross yno i fodrwyo y cywion yn ogystal â chywion mulfrain gwyrdd a nythai gerllaw.



Buom yn cerdded llawer iawn ar hyd y llwybr hwn yn ystod yr haf ac mae'r lluniau (gan gynnwys yr un a welir ar y clawr) yn gofnod o haf hirfelyn.

**Gareth a Gwennan Jones**



*Y ceiliog yn dod â llygoden i'r cywion*

# RHAGLEN IONAWR-MEHEFIN 2015

Gyda'r newid i ***ddau*** rifyn o Lygad Barcud mewn blwyddyn yn hytrach na thri, y mae yn anoddach cyhoeddi Rhaglen Weithgareddau gynhwysfawr. Mae yn bwysig iawn eich bod yn edrych ar ein gwefan yn rheolaidd er mwyn cael y manylion diweddaraf am beth fydd yn digwydd. Yn well byth, anfonwch eich cyfeiriad e-bost i ni ac fe gewch neges amserol am bob dim a fydd yn digwydd. (Anfonwch neges syml i pwllheli@gmail.com )

**Ionawr 17**
Taith yn Nyffryn Conwy. Cyfarfod ger pont Inigo Jones, Llanrwst **SH799615**.

**Chwefror 3**
Sgwrs 'Bywyd Gwyllt y Glaslyn', Dylan Evans. Llyfrgell Plas Tan y Bwlch.

**Chwefror 14**
Taith yn nyffryn y Fawddach. Cyfarfod ger y blwch signal, Pwll Penmaen **SH692184**. (Rhys Gwyn)

**Chwefror 25**
Sgwrs 'Rheoli cynefinoedd ar gyfer adar', Sion Dafis. Llyfrgell Plas Tan y Bwlch.

**Mawrth 14**
Taith i Martinmere. Trefnir cludiant (cysyllter â Gareth – pwllheli@gmail.com)

**Mawrth 25**
Sgwrs gan Rhys Gwyn. Ystafell Oakeley, Plas Tan y Bwlch.

**Ebrill 18**
Taith drwy goedydd Felenrhyd. Cyfarfod ger pwerdy Maentwrog **SH655397**. (Dewi Jones)

**Ebrill 28**
Sgwrs 'Mwy o Adar Awstralia', Twm Elias. Ystafell Oakeley, Plas Tan y Bwlch.

**Mai 16**
Taith yng nghoedydd Abergwyngregyn. Cyfarfod ym maes parcio y warchodfa **SH664719**.

**Mehefin 13**
Taith yn ardal Cilan a Phorth Ceiriad. Cyfarfod ym maes parcio yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym Mynydd Cilan **SH294247**. (Gareth a Gwennan Jones)

**Teithiau i gyd yn cychwyn am 10-30yb. a'r sgyrsiau am 7-30yh.**

Cewch y manylion diweddaraf am ein gweithgareddau ar ein gwefan-

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**